Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Penodi Aelod

Dyddiad Cau: 2 Ionawr 2020

The Commissioner for Public Appointments

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cynnwys

Gwneud Cais

- Datganiad Personol
- CV
- Amserlen Ddangosol
- Datganiad Amrywiaeth
- Cynllun Gwarantu Cyfweliad
- Cysylltiadau

Atodiad A: Penodi Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Atodiad C: Y broses ddethol

Atodiad D: Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn aelod newydd o **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.**

Swyddogaeth aelod sy'n cael ei benodi gan Weinidogion Cymru i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw i ddod â safbwynt cenedlaethol i'w arweinyddiaeth effeithiol, i helpu i ddatblygu ei gynlluniau strategol ar gyfer y dyfodol, ac i sicrhau bod ei fusnes yn cael ei drin yn effeithlon ac effeithiol. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus ac yna ar Penodi Aelod i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Pan fydd y swydd yn ymddangos cliciwch ar y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen Ddangosol

Dyddiad cau:	2 Ionawr 2020
Cwblhau'r rhestr fer:	17 Ionawr 2020
Cyfweliadau:	10-14 Chwefror 2020

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Datganiad am Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl
Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Manylion Cyswllt:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol
Ffôn: 0300 025 5454
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a rôl Aelodau cysylltwch â:

Geraint Evans, Yr Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth, Llywodraeth Cymru
Ffôn: 0300 062 2097
E-bost: geraint.evans@llyw.cymru

Neu

Julia Gruffydd (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Plas y Ffynnon,
Cambrian Way,
Aberhonddu,
Powys
LD3 7HP

Ffôn: 01874 620400

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 0300 025 5454 neu anfonwch e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

Atodiad A

Penodi Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person
Mae aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol, yn unigol ac ar y cyd, i Lywodraeth Cymru am ddarparu arweinyddiaeth effeithiol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol, am bennu ei bolisi ac am sicrhau ei fod yn bodloni ei amcanion o fewn y fframwaith statudol, a'r fframwaith polisi ac ariannol sydd wedi ei baratoi ar ei gyfer. Mae gan aelodau ddyletswydd i weithredu o fewn y gyfraith, yn onest ac er budd y Parc Cenedlaethol, ac i sicrhau ei fod yn gwasanaethu'r cyhoedd bob tro heb gael ei ddylanwadu gan fuddiannau preifat, neu unrhyw amheuaeth fod hynny wedi digwydd.

Rôl y Pwyllgor
Mae'n ofynnol i Aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddeall a dangos ymrwymiad i ddibenion y Parc Cenedlaethol a bod yn barod i neilltuo'r amser sydd ei angen i fod yn bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd llawn yr Awdurdod a chyfarfodydd y pwyllgor, yn ogystal â digwyddiadau i ddatblygu aelodau (o leiaf 6 pob blwyddyn), gweithgorau, digwyddiadau, a chynrychioli yr Awdurdod ar gyrff allanol.

Prif Dasgau:

- Arwain Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn benodol wrth ddiffinio a datblygu ei gyfeiriad strategol ac wrth bennu amcanion heriol;

- Sicrhau bod gweithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cael eu cynnal a'u hybu mewn ffordd mor effeithlon ac effeithiol â phosib;

- Sicrhau bod strategaethau'n cael eu datblygu ar gyfer bodloni amcanion a dyletswyddau cyffredinol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn unol â'r polisïau a'r blaenoriaethau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru;

- Monitro perfformiad Awdurdod y Parc Cenedlaethol i sicrhau ei fod yn bodloni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformio;

- Sicrhau bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rheoli, rheoleiddio a monitro ei weithgareddau, yn ogystal â gweithgareddau unrhyw gyrff eraill y mae'n eu noddi neu'n eu cefnogi, mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian o fewn fframwaith o arfer da, rheoleidd-dra a phriodoldeb ac i gymryd rhan yn y broses gynllunio gorfforaethol;

- Hyrwyddo amcanion Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Manyleb y Person

I gael eich ystyried bydd yn rhaid ichi ddangos bod gennych y rhinweddau, sgiliau a phrofiad i fodloni'r meini prawf ar gyfer penodiad. Yr ydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion sydd heb brofiad blaenorol o weithio ar fwrdd sector cyhoeddus. Caiff unigolion eu dewis ar y meini prawf hanfodol yn hytrach na'u bod yn cynrychioli sefydliad neu grwpiau penodol.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Er mwyn llwyddo yn y swydd hon mae'n bwysig eich bod yn gallu defnyddio eich sgiliau a'ch profiad mewn ffyrdd sy'n helpu i gyflawni y dibenion statudol a ddynodwyd i'r Parciau Cenedlaethol (gweler yr ail baragraff yn Atodiad B).

Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn elwa o ddefnyddio yr ystod eang o sgiliau a gwybodaeth sydd gan ei aelodau a bydd angen ichi allu dod â chyd-destun cenedlaethol i waith Awdurdod y Parc sydd yn cydnabod ei rôl a chyfraniad at ddyheadau Cymreig (yn arbennig ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol) tra'n adnabod cyfraniad y Parc at fywyd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Gallai helpu os oes gennych brofiad o weinyddu cyhoeddus ar lefel uwch, wedi rhedeg busnes, bod yn ymddiriedolwr neu weithio i elusen neu wybodaeth arall mewn maes sy'n uniongyrchol berthnasol i waith amrywiol Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Yn y cylch penodi hwn **mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unigolion sydd â phrofiad eang a sgiliau mewn cadeirio, busnes, cyllid, partneriaethau strategol, cyfathrebu a llywodraethu**, ond bydd profiad mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol hefyd yn fuddiol:

- gwarchod yr amgylchedd naturiol, hanesyddol, adeiledig ac / neu ddiwylliannol;
- cyfathrebu a materion cyhoeddus (technoleg ddigidol yn benodol);
- rheoleiddio a llywodraethu;
- y celfyddydau;
- hamdden a chwaraeon;
- ynni adnewyddadwy;
- addysg;
- datblygu cynaliadwy;
- sector busnes;
- amaethyddiaeth; neu
- gweithio gyda chymunedau a grwpiau cymunedol.

Meini Prawf Hanfodol

- Y gallu i wneud cyfraniad cadarn i'r broses o arwain yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu raglenni gan ddefnyddio'r wybodaeth briodol o ran perfformiad i hybu gwelliant a sicrhau cyflawni;
- Y gallu i weithredu'n effeithiol mewn swyddogaeth strategol neu genedlaethol sy'n dylanwadu ac yn sicrhau bod polisïau yn cael eu gweithredu;
- Y gallu i adeiladu a chyfrannu at dimau effeithiol, gyda'r gallu i gyfathrebu'n glir gydag amrywiol gynulleidfaoedd fel llysgennad i'r Awdurdod;
- Gwerthfawrogiad o'r polisi ac arferion presennol a gwaith Awdurdodau Parc Cenedlaethol;
- Dealltwriaeth ac ymrwymiad i'r deg egwyddor yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 (gweler Atodiad D);
- Mae'r Awdurdod yn cynnal ei waith yn electronig a disgwylir i aelodau fod yn ddigon hyfedr mewn TG i fedru rheoli calendrau, i ddelio ag ebyst a phob agenda a phapurau drwy system rheoli pwyllgor electronig;
- Dod â phrofiadau eich hun sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Iaith Gymraeg
Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol i un swydd ac yn hanfodol i'r llall.

Lleoliad y Cyfarfodydd
Fel arfer cynhelir cyfarfodydd yr Awdurdod ym mhrif swyddfeydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Aberhonddu, ond o bryd i'w gilydd fe'u cynhelir mewn lleoliadau eraill yn y Parc.

Ymrwymiad amser
Bydd disgwyl i aelodau fod ar gael i weithio isafswm o bedwar diwrnod y mis fel aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu'r hyfforddiant cynefino angenrheidiol a, fel bo'n briodol, mynychu o leiaf 6 sesiwn datblygu drwy gydol term y penodiad. Bydd cyfle i Aelodau gymryd rhan mewn gweithgorau anffurfiol gyda swyddogion, ac efallai y byddwch yn cael cyfle i fod yn Hyrwyddwr ar gyfer maes arbennig o waith.

Hyd y penodiad
Bydd eich penodiad yn cychwyn yn gynnar ym mis Ebrill 2020 ac yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Wedi hyn caiff y Dirprwy Weinidog ystyried ail-benodi heb gystadleuaeth am hyd at uchafswm o 10 mlynedd.

Cyflog
Bydd Aelod yn cael ei dalu £3,735 y flwyddyn (caiff y cyflog ei adolygu gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol ac mae'n seiliedig ar ragdybiaeth o o leiaf 44 niwrnod o waith y flwyddyn, gyda diwrnodau ychwanegol yn cael eu hystyried fel yr elfen gwasanaeth cyhoeddus). Mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a dau Gadeirydd y pwyllgorau'n derbyn Cyflog Uwch yn ychwanegol. Mae aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael eu hystyried fel deiliaid swydd at ddibenion trethi ac Yswiriant Gwladol. Bydd yn rhaid talu trethi ar y ffioedd, o dan Atodlen E y Ddeddf Trethi a bydd yn rhaid talu Yswiriant Gwladol Dosbarth 1. Bydd y rhwymedigaethau hyn yn cael eu talu drwy system cyflogres Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r ffi net yn cael ei dalu i ddeiliad y swydd. Nid oes yn rhaid talu TAW.

Gellir hawlio yn ôl gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gostau teithio a chostau rhesymol eraill a allai godi wrth wneud gwaith ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o fewn y terfynau cydnabyddedig. Bydd gennych hawl hefyd i hawlio ad-daliad am gostau gofal plant/gofal henoed/gofalwr cynorthwyol, tra'n gwneud gwaith ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Os ydych yn dymuno rhagor o wybodaeth o ran os ydych yn gymwys am lwfansau gofal yna cysylltwch ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

Julia Gruffydd, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ffôn: 01874 620400 neu julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk.

Atebolrwydd
Caiff Aelodau eu penodi gan Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ac maent yn atebol iddi hi, drwy Gadeirydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, wrth gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Mae pobl sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol ar Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gymwys i wneud cais. Mae hyn yn cynnwys cyn-Aelodau neu Aelodau presennol sydd wedi gwasanaethu, neu fydd wedi gwasanaethu am ddeng mlynedd.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn bersonau sy'n ymddwyn bob tro mewn dull sy'n sicrhau hyder y cyhoedd ynddynt.

Tynnir sylw darpar ymgeiswyr at y gofynion cymhwyster ym mharagraff 7 Atodlen 7 i'r Ddeddf Amgylchedd 1995. Mae Paragraff 7 yn darparu bod y sawl sydd yn ddeiliaid rolau arbennig eraill yn anghymwys i fod, neu barhau i fod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd eich bod yn anghymwys i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru os ydych yn aelod o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o dan orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015. http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made/welsh

Nid yw hefyd yn bosib i ddod yn Aelod os ar adeg eich cais rydych yn ymgyrchu mewn etholiad, neu yn bwriadu gwneud hynny.

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys bod yn perthyn i unrhyw weithiwr o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ac ar wefan yr Awdurdod.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma.

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Beth yw Parciau Cenedlaethol?

Mae Parciau Cenedlaethol yn dirluniau o bwysigrwydd rhyngwladol. Er eu bod yn barciau gwledig yn bennaf, maent yn agos at gymunedau trefol ac mae posibilrwydd sylweddol yno i gyfoethogi bywydau pobl Cymru, ac ymwelwyr â Chymru, ac i gyfrannu'n bositif at economi Cymru. Tasg allweddol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yw helpu i sicrhau bod yr ardaloedd arbennig hyn, yn y dyfodol, yn lefydd sydd â thirwedd, bywyd gwyllt a threftadaeth gyfoethocach, mwy amrywiol nac sydd ganddynt heddiw, sy'n cael ei fwynhau gan drawsdoriad llawn o'r gymdeithas.

Beth yw eu Rôl?

Mae gan Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol ddau bwrpas statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995:

- diogelu a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol;

- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parciau.

Yn ogystal â cheisio cyflawni eu dau bwrpas statudol, mae gan Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol ddyletswydd i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol eu cymunedau lleol wrth ymlid y ddau bwrpas statudol.

Os yr ymddengys bod gwrthdaro rhwng y dibenion hyn, rhoddir mwy o flaenoriaeth i ddiogelu a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal o fewn y Parc Cenedlaethol.

Dulliau o weithio

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod baratoi Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun yn pennu polisïau ar gyfer rheoli'r Parc a threfnu a darparu gwasanaethau a chyfleusterau gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol. Mae'n cynnwys polisïau i reoli'r tir o fewn y Parc Cenedlaethol ac yn sail ar gyfer cydweithio, nid yn unig gyda sefydliadau cadwraeth statudol a gwirfoddol, ond hefyd gyda pherchnogion tir eraill cyhoeddus a phreifat. Mae ymgynghori yn ystod y cyfnod o baratoi'r Cynllun yn caniatâu i bobl gyfrannu at bolisïau ymarferol, ac mae'n hollbwysig i sicrhau bod perthynas dda rhwng trigolion y Parc a buddiannau o fewn y Parc.

Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnwys prif randdeiliaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned wrth baratoi Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol, a bydd yn chwarae rhan allweddol i ddatblygu y Cynllun Datblygu Lleol. Awdurdodau y Parc Cenedlaethol yw awdurdod cynllunio eu hardal, sy'n gyfrifol am greu cynlluniau datblygu a rheoli datblygu.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Beth yw eu Strwythur a'u Haelodaeth?

O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 mae tri Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn Awdurdodau Lleol â diben arbennig. Maent yn gyrff corfforaethol gyda phwerau gweithredol. Yr un pwrpas sydd i'r Parciau yng Nghymru a Lloegr ond mae aelodaeth Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol ym mhob gwlad yn wahanol.

Yng Nghymru, mae dwy ran o dair o'r seddi yn cael eu llenwi gan gynghorwyr Awdurdodau Lleol cyfansoddol i adlewyrchu buddiannau lleol ac un rhan o dair gan benodiadau sy'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru i gynrychioli buddiannau cenedlaethol. Wrth benodi aelodau i eistedd ar Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol, mae Awdurdodau Lleol yn cael eu hannog i ddefnyddio cynghorwyr sy'n cynrychioli wardiau sydd naill ai'n gyfan-gwbl neu'n rhannol o fewn ffin y Parc.

Ble mae Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol yn cael eu harian?

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi mwyafrif eu cyllid i Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol ar ffurf Grant Parc Cenedlaethol. Daw dwy ran o dair o'r Grant gan Weinidogion Cymru yn uniongyrchol, gyda'r un rhan o dair sy'n weddill yn cael ei gasglu gan Awdurdodau'r Parc o'u Hawdurdodau Lleol cyfansoddol. Mae grant ychwanegol ar gael gan Weinidogion Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf penodol. Caiff Awdurdodau y Parc Cenedlaethol incwm o, er enghraifft, weithgareddau masnach, ffioedd meysydd parcio a ffioedd ceisiadau cynllunio. Mae Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol yn anfon llythyr grant strategol pob blwyddyn yn pennu'r blaenoriaethau a'r amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaw.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol dan gadeiryddiaeth Simon Pickering, Pennaeth y Tîm Tirweddau a Hamdden Awyr Agored yn Llywodraeth Cymru ac fe fydd hefyd yn cynnwys Y Cynghorydd Gareth Ratcliffe, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Julia Cherrett, Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Ionawr 2020 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad yn ystod Chwefror 2020.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau ym Mhrif Swyddfa Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Aberhonddu.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Dirprwy Weinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am swyddi, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 0300 025 5454 neu penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 0300 025 5454 neu anfonwch e-bost i penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Atodiad D

Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001

1. Anhunanoldeb
Rhaid i aelodau weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio'u safle fel aelodau er mantais amhriodol iddynt eu hunain neu er mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

2. Gonestrwydd
Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu buddiannau'r cyhoedd.

3. Uniondeb a Gwedduster
Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn bwrw amheuaeth ar eu huniondeb. Rhaid i aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly bob adeg.

4. Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith
Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi iddynt.

5. Stiwardiaeth
Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau'r awdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ddoeth.

6. Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a manteision, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail rhagoriaeth. Er bod rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol swyddogion a gall fod yn briodol iddynt roi sylw i farn eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb hwy yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

7. Cydraddoldeb a Pharch
Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gyda sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal i bawb, ni waeth beth yw eu gender, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

8. Bod yn Agored
Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

9. Atebolrwydd
Mae'r aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am sut y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw archwiliadau sy'n briodol ar gyfer eu cyfrifoldebau.

10. Rhoi Arweiniad

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Rhaid i aelodau hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad ac esiampl fel y byddant yn hybu hyder cyhoeddus yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddwch ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a chyflogeion eraill yr awdurdod.